**Adroddiad ar**

**Gylch Meithrin Ynys Y Plant Felinfach**
**Ysgol Gynradd Felinfach**
**Felinfach**
**Llanbedr Pont Steffan**
**Ceredigion**
**SA48 8AE**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Ynys Y Plant Felinfach

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Ynys Y Plant, Felinfach |
| Categori'r gofal a ddarperir | Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Dwynwen Llywelyn |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Heulwen Jones |
| Nifer y lleoedd | 12 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 14 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Llun i Gwener 09:00 – 11:30 a 12:45 – 15:15 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Nac ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 13/10/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 19/11/2013 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 09/10/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Cryfhau prosesau hunanwerthuso fel eu bod yn adnabod agweddau ar gyfer gwella yn gywir

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae llais cryf iawn gan y plant ac maent yn gwneud penderfyniadau deallus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol iawn am eu gweithgareddau, er enghraifft wrth ddewis a chymysgu paent eu hunain. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynegi barn yn dda iawn ac yn cyfrannu syniadau creadigol at weithgareddau trwy drafodaeth, a'r arweinydd yn eu nodi ar fap meddwl. Mae llawer yn arddangos cyffro a miri wrth drafod rygbi yn hyderus. Wrth ddod i mewn, mae mwyafrif y plant yn trafod eu teimladau yn ddeallus ac yn egluro pam maent yn teimlo'n hapus, yn flin, yn gyffrous neu'n drist.

Mae rhan fwyaf y plant yn cyrraedd y lleoliad yn eiddgar ac yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr. Maent yn gyfarwydd iawn â'r drefn ddyddiol ac mae bron pob un o'r plant yn gwybod bod amser chwarae yn dilyn amser cylch. Mae bron pob plentyn yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig yn arbennig o dda. Mae'r plant yn datblygu hoffter tuag at ymarferwyr sy'n eu hadnabod nhw'n dda ac sy'n rhoi gofal cyson a parhaus iddynt, sy'n meithrin hyder a hunan-barch cadarnhaol.

Mae rhan fwyaf y plant yn ffurfio cyfeillgarwch gydag eraill ac yn cyd-chwarae'n fendigedig gyda'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwrtais ac yn defnyddio moesau arbennig adeg byrbryd a thrwy gydol y sesiwn. Maent yn rhannu offer yn ddirwgnach, yn cydweithredu ac yn cymryd tro yn briodol. Er enghraifft, maent yn cyd-dynnu'n ardderchog tu allan wrth aros tro i daflu pêl i mewn i dwll ac yn cymeradwyo pan fydd eraill yn llwyddiannus.

Mae bron pob un o'r plant yn frwdfrydig, hapus ac yn dysgu medrau newydd wrth iddynt brofi amrywiaeth wych o gyfleoedd chwarae, fel dysgu ble mae gwahanol wledydd ar fap. Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig wrth arbrofi a thrin deunydd naturiol ar y bwrdd hydref a bwrdd naturiol tu allan. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu dealltwriaeth o'r byd natur o'u cwmpas; er enghraifft, maent yn gwybod bod wiwer yn dwyn bwyd adar.

Mae bron bob un o'r plant yn dod yn fwyfwy annibynnol ac mae eu medrau datrys problemau yn datblygu'n dda iawn. Er enghraifft, mae'r helpwyr heddiw yn gyfrifol am sicrhau bod nifer y cwpanau a'r powlenni yn cyfateb i faint o blant sydd yn cael byrbryd. Mae'r plant yn golchi dwylo ac yn mynd i'r toiled yn annibynnol ac yn dysgu sut i ddefnyddio siswrn a gwisgo eu cotiau yn ddidrafferth. Maent yn dysgu i barchu eu hamgylchfyd trwy ailgylchu deunyddiau.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) o safon uchel ac yn eu defnyddio yn hyderus ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae bron pob plentyn yn gwrando’n astud ac yn barchus ar ei gilydd ac ar oedolion yn ystod sesiynau a gweithgareddau grŵp. Mae llawer ohonynt yn siarad yn glir gan ddefnyddio brawddegau llawn a geirfa gyfoethog. Maent yn trafod materion yn hyderus o flaen eu cyfoedion ac yn ymateb i’w gilydd yn aeddfed, er enghraifft wrth drafod cawod o law sydyn a’r posibilrwydd o storom fyddai’n dod â mellt a tharanau hefyd. Mae bron pob plentyn yn mwynhau gwrando ar oedolyn yn darllen stori. Maent yn dyfalu camau nesaf y stori yn synhwyrol ac yn dwyn i gof storïau a thrafodaethau blaenorol yn frwdfrydig. Mae llawer yn gwybod sut i ddal llyfr yn gywir ac yn mwynhau dewis llyfrau o’u gwirfodd er mwyn trafod ffeithiau neu ailadrodd storïau gydag oedolion neu eu cyfoedion. Mae’r rhan fwyaf yn dechrau defnyddio offer gwneud marciau amrywiol yn annibynnol. Mae llawer yn dechrau sylweddoli bod ysgrifennu yn ffordd o gyfathrebu, er enghraifft wrth ysgrifennu rhestr yn y caffi yn yr ardal chwarae rôl. Mae tua hanner y plant yn dechrau ysgrifennu eu henwau yn eglur yn annibynnol. Mae bron pob plentyn yn creu llinellau igam ogam, tonnog a throellog yn llwyddiannus. Mae hyn yn cryfhau eu gafael a’u rheolaeth o offer ysgrifennu ac yn datblygu medrau marcio cynnar cadarn iawn.

Mae gan y rhan fwyaf o’r plant ddealltwriaeth gref o rif ac maent yn cyfrif gwrthrychau i 10 yn hyderus. Mae tua hanner yn medru cyfri hyd at 20 yn llwyddiannus ar linell rif, er enghraifft wrth nodi sawl awr mae’n ei gymryd i hedfan i wledydd gwahanol. Mae gan y mwyafrif ymwybyddiaeth dda o siapiau 2D ac maent yn adnabod ac yn enwi siapiau sgwâr, cylch, petryal a hirgrwn yn gywir yn fedrus wrth drafod thema cwpan rygbi’r byd. Maent yn defnyddio iaith gymharol wrth drafod tedis bach, canolig a mawr ac maent yn dethol gwrthrychau fel peli ar gyfer y tedis ar sail hyn. Maent yn dewis, dethol a grwpio gwrthrychau yn yr ardal natur gan ailadrodd patrymau yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio offer technolegol yn bwrpasol ac yn annibynnol. Maent yn dewis chwarae gyda chiwb sain i ganfod enwau siapiau anghyfarwydd ac maent yn defnyddio pegiau sain i wrando ar ganeuon cyfarwydd wrth wrando ar stori am gêm rygbi. Mae’r rhan fwyaf yn dechrau rheoli tegan rhaglenadwy yn annibynnol. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio camerâu digidol yn annibynnol i gofnodi eu gweithgareddau.

Mae bron pob plentyn yn datblygu medrau corfforol cryf. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol bob dydd fel rhedeg o gwmpas rhwystrau ar yr iard neu daflu peli at dargedau. Maent yn gwrando’n astud ar gyfarwyddyd ac yn ymateb yn gywir. Defnyddiant amrywiaeth o offer yn fedrus er mwyn datblygu eu medrau cydbwyso. Mae llawer o’r plant yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus drwy gymysgu paent i greu lliw newydd er mwyn peintio lluniau am yr hydref, neu wrth ddefnyddio gwrthrychau o lan y môr megis tywod, gwymon a cherrig mân i wneud collage ddeniadol.

Mae llawer ohonynt yn datblygu’r gallu i feddwl ac i ddatrys problemau yn llwyddiannus drwy weithgareddau fel cario dŵr o un lle i’r llall gan lenwi a gwagio cynhwysyddion o wahanol feintiau. Mae hyn wedi cryfhau gallu’r plant i arllwys diodydd i’w gilydd yn ofalus yn ystod amser byrbryd.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn i ddiogelwch ac iechyd y plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu perthnasol a diweddar. Maent yn gyfarwydd iawn â gweithdrefnau'r lleoliad ac mae'r rhan fwyaf wedi mynychu hyfforddiant ar gymorth cyntaf, ac iechyd a diogelwch. Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau da iawn ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau. Fodd bynnag, mae angen cryfhau rhywfaint o faterion yn yr asesiadau risg er mwyn lleihau'r posibilrwydd o niwed i blant.

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd arbennig i'r plant fyw'n iach ac mae ymarferwyr yn atgyfnerthu pwysigrwydd iechyd y geg trwy annog y plant i frwsio eu dannedd yn ddyddiol. Maent yn cynnig amrywiaeth eang o ffrwythau i'r plant adeg byrbryd er mwyn atgyfnerthu ymwybyddiaeth y plant ymhellach. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ac yn sicrhau bod y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ddyddiol, er enghraifft wrth ddefnyddio buarth yr ysgol neu'r lle chwarae lleol.

Defnyddia'r ymarferwyr strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol a phositif ac maent yn gwobrwyo plant gyda chlod yn aml ac weithiau gyda sticeri. Maent yn garedig ac yn addfwyn wrth siarad â'r plant ac mae hyn yn arwain at awyrgylch gadarnhaol ac hamddenol. Mae ymarferwyr yn canmol y plant yn rheolaidd ac yn atgyfnerthu eu hunanhyder trwy roi cyfrifoldebau syml iddynt, fel casglu offer ar ôl chwarae tu allan, a'u cadw yn y lle cywir.

Mae systemau cadarn yn eu lle i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac mae'r lleoliad yn cydweithio'n agos iawn gyda rhieni ac asiantaethau allweddol fel therapyddion lleferydd ac ymwelwyr iechyd. Rhoddir gwybodaeth gynhwysfawr i rieni am gynnydd eu plant.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, eu galluoedd a'u hoffterau unigol. Maent yn darparu amgylchedd gofalgar ac yn rhoi anghenion y plant yn gyntaf. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael amser ychwanegol i gwblhau tasgau, pan fo angen. Mae'r ymarferwyr yn gosod a monitro targedau unigol er mwyn hybu datblygiad pob plentyn. Maent yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i adnoddau a gweithgareddau. Maent yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddysgu am wahanol ddiwylliannau, er enghraifft dysgu beth yw'r Haka. Mae rhieni'n gweld datblygiad cyson yn eu plant, yn enwedig yn safon eu hiaith lafar.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang a chyffrous o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb bron bob plentyn yn llwyddiannus. Maent yn talu sylw teilwng i syniadau'r plant ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n adlewyrchu eu diddordebau ac yn adeiladu ar eu gwybodaeth flaenorol. Mae gweithgareddau fel dysgu am y gwledydd sy'n cystadlu yng nghwpan rygbi'r byd, neu am gestyll, baneri ac arwyr trwy ddysgu am Owain Glyndŵr, yn tanio dychymyg a chwilfrydedd y plant ar draws y chwe maes dysgu. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r defnydd effeithiol a rheolaidd

a wneir o'r gymuned leol i gefnogi dysgu trwy ymweld â lleoliadau diddorol ynghyd â gwahodd ymwelwyr i rannu profiadau gyda'r plant. Maent yn atgyfnerthu ymwybyddiaeth y plant am eu hardal leol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r plant yn galw yn aml yn y siop leol i brynu adnoddau, fel cynhwysion ar gyfer coginio. Mae ymweliadau rheolaidd i erddi lleol yn codi ymwybyddiaeth y plant o gylch bywyd planhigion wrth iddynt sylwi ar y blodau yn ystod pob ymweliad. Roedd ymweliadau mochyn bach i'r lleoliad yn atgyfnerthu gwerthfawrogiad y plant o fyd natur ymhellach ac yn hyrwyddo eu dealltwriaeth o iaith fathemategol wrth iddynt ei fesur bob tro. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau profiadau cyfoethog i blant ddatblygu eu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Gwnânt hyn trwy weithgareddau fel astudio gwledydd gwahanol a'u traddodiadau, ymweliadau gan y ficer lleol a theithiau i'r eglwys. Maent hefyd yn sicrhau bod y plant yn weithredol wrth ddarparu stondin salad yn ystod rasys clwb rhedeg lleol ac anfon anrhegion at blant llai ffodus yn Romania.

Mae'r ddwy ymarferydd yn cofnodi a thrafod deilliannau'r plant yn rheolaidd er mwyn cynllunio gweithgareddau pwrpasol i sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n effeithiol. Maent yn cadw cofnodion manwl a thrylwyr sy'n nodi cynnydd pob unigolyn yn ofalus. Sicrhânt fod plant yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn fedrus trwy weithgareddau sydd yn eu herio'n effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd ardderchog er mwyn datblygu'r plant yn ddysgwyr annibynnol hyderus. Mae eu dealltwriaeth o allu pob disgybl yn eu galluogi i sicrhau bod pob unigolyn yn cael eu gwthio yn barhaol. Maent yn cynllunio gweithgareddau parhaus sy'n galluogi plant i ymarfer eu medrau a gwneud penderfyniadau am eu dysgu eu hunain. Er enghraifft, mae gweithgareddau celf, coginio a chwarae rôl yn annog y plant i wneud dewisiadau er mwyn datblygu medrau creadigol heb ofni gwneud camgymeriadau. Golyga hyn fod rhan fwyaf y plant yn medru gweithio'n annibynnol, yn hyderus ac yn tacluso ar eu holau yn ddiffwdan. Mae medrau corfforol y plant yn cael eu meithrin yn dda trwy adnoddau medrau mân a mawr; er enghraifft, darperir cyfleoedd eang iddynt chwarae gyda thoes ac i bigo a thrafod mes, concyrs a phegiau ac ati. Cynlluniant ddigon o gyfleoedd i blant chwarae gydag offer mawr fel peli, beiciau a cheir. Mae sesiynau ymarfer corff rheolaidd yn helpu iddynt ddatblygu eu medrau corfforol yn dda. Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel iawn o bob plentyn. Mae ganddynt berthynas hyfryd gyda'r plant wrth iddynt eu hannog a'u gwthio'n gyson. Maent yn deall eu hanghenion yn dda sy'n golygu eu bod ond yn ymyrryd pan fod angen, ac yn gadael i'r plant ddarganfod drostynt eu hunain. Maent yn modelu iaith lafar gan atgyfnerthu patrymau iaith a chynnig geirfa newydd yn feistrolgar trwy gydol y sesiwn. Hola'r ymarferwyr y plant yn fedrus er mwyn ehangu eu dealltwriaeth ac i ddatblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo Cymreictod a'r Cwricwlwm Cymreig yn llwyddiannus trwy weithgareddau a digwyddiadau arbennig, fel dathlu diwrnod Owain Glyndŵr, dydd gŵyl Dewi a thrwy ddysgu caneuon traddodiadol yn llwyddiannus.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r amgylchedd yn hynod ddiogel a glân, ac o ganlyniad, yn hyrwyddo diogelwch a lles plant. Mae'r drysau wedi eu cloi a'r ardal tu allan yn gaeedig. Mae gan yr ymarferwyr drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad ac maent yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Sicrheir bod yr asesiadau risg a gwiriadau diogelwch yr offer tân, y larwm tân, ac offer trydanol yn gyfredol.

Mae plant yn derbyn gofal mewn adeilad addas iawn sydd wedi'i osod i hyrwyddo'u hannibyniaeth a'u hannog i ddysgu a datblygu. Mae'r safle yn groesawgar, gyda byrddau hysbysebu ar gyfer rhieni a llawer o waith y plant wedi ei arddangos yn ddeniadol. Gwneir defnydd da o'r amgylchedd gan fod ardaloedd chwarae ysgogol wedi'u creu gan gynnwys llyfrau, chwarae rôl, ac eraill. Ceir amrywiaeth da o adnoddau ymhob ardal, i gyd o fewn cyrraedd y plant. Mae'r amgylchedd yn apelgar a diddorol a cheir arddangosfeydd niferus o bosteri a gwaith crefft y plant, nifer ohonynt o fewn cyrraedd y plant. Mae'r amgylchedd yn gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Gall y plant fynd i'r toiled a defnyddio'r basn golchi dwylo yn annibynnol a cheir digon o lefydd i storio cyfarpar.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd rhagorol o'r gofod sydd ar gael ac yn cynllunio cyfleoedd chwarae a dysgu ardderchog i'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn elwa o amrywiaeth o weithgareddau yn yr ardal dan do. Mae'r dodrefn yn addas i oedran y plant ac yn eu galluogi i gwblhau gweithgareddau yn hawdd. Mae ymarferwyr yn hybu medrau ysgrifennu'r plant yn yr ardaloedd marcio, y twb tywod ac wrth ddefnyddio rhestr siopa yn y gornel gartref yn effeithiol. Mae'r adnoddau yn hygyrch i'r plant ac maent yn cael eu storio mewn bocsys lefel isel gyda labeli a lluniau i alluogi'r plant i wneud dewisiadau ynglŷn â'u chwarae. Mae ystod eang o deganau ac offer i hyrwyddo ymwybyddiaeth diwylliannol, gan gynnwys llyfrau a doliau ac amrywiaeth helaeth o gyfarpar hybu'r dreftadaeth Gymraeg. Ceir dewis da o adnoddau i blant ddatblygu'u medrau TGCh gan gynnwys adnoddau sain.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu plant i fod yn annibynnol, i ddysgu hyd eitha eu gallu mewn amgylchedd symbylus, diogel ac ysgogol. Mae hyn yn cael ei wireddu drwy sicrhau bod y plant yn gartrefol yn eu cynefin, yn adnabod eu milltir sgwâr ac yn ymwybodol o wledydd a phobl eraill drwy'r byd. Mae hi'n cyfleu hyn yn effeithiol i'r ymarferwyr, rhieni a'r gymuned ehangach ac yn arwain trwy esiampl gan osod disgwyliadau uchel i bawb. O ganlyniad, mae'r arweinydd yn sicrhau safonau uchel gan y plant ac mae hi'n darparu profiadau gwerthfawr iddynt yn ddyddiol.

Mae'r arweinydd wedi dechrau rhannu cyfrifoldebau gyda'r ymarferydd newydd ac mae hi'n gweithredu ar y rhain yn gydwybodol. Mae prosesau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod y pawb yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cyfrannu'n werthfawr i gyflawni nodau strategol ac amcanion y lleoliad. Mae'r arweinydd yn trefnu hyfforddiant buddiol i ymarferwyr sy'n berthnasol i'w gwaith trwy gyrsiau addas. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad proffesiynol yr ymarferwyr yn ogystal â gwella ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad a lles y plant. Er enghraifft, mae'r aelod newydd eisioes wedi derbyn hyfforddiant ar addysgu mathemateg sensori ac wedi dechrau gweithredu'r cynllun wythnosol yn llwyddiannus.

Mae'r arweinydd yn adnabod y lleoliad yn dda iawn. Mae ganddi wybodaeth gadarn a thrylwyr am safonau'r plant, ac mae hi'n asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn barhaus gydag aelod arall o staff ac yn achlysurol gydag aelodau'r pwyllgor. Mae'r arweinydd yn defnyddio adroddiadau a chyngor athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn effeithiol sy'n ychwanegu at ei gallu i adnabod cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Defnyddia'r cynllun datblygu yn effeithiol i wella ar y

blaenoriaethau a nodwyd, er enghraifft i ddatblygu dealltwriaeth y plant o siâp, lliw a maint trwy ddulliau mathemateg synhwyraidd. Fodd bynnag, nid yw pob blaenoriaeth bob amser yn dilyn yn amlwg o ganfyddiadau'r broses hunanwerthuso ac nid yw'r camau gweithredu bob amser yn ddigon eglur. Mae trefniadau addas ar waith i sicrhau goruchwyliaeth a gwerthusiad blynyddol yr ymarferwyr. Mae'r broses o arsylwi ar ymarferwyr wrth eu gwaith yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn yr addysgu, ac wedi arwain at newidiadau buddiol.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau gwerthfawr sydd yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau plant. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol gyda rhieni trwy rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau pwysig, gofyn iddynt helpu'r plant gyda'r thema ac adrodd ar ddatblygiad eu plant yn rheolaidd. Mae gan y lleoliad berthynas werthfawr iawn gyda'r gymuned leol, ac maent yn ymweld â lleoliadau sy'n adnabyddus i'r plant yn aml. Mae ganddynt berthynas fuddiol gyda'r ysgol leol gan rannu adnoddau fel offer ymarfer corff, pan fo angen. Mae'r arweinydd yn trefnu bod cyswllt agos rhwng y plant a'r pedair ysgol, er mwyn sicrhau eu bod yn trosglwyddo'n esmwyth i'r cam nesaf yn eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2019